# Ffilm Cymru Wales
# Recriwtio i'r Bwrdd
# Medi 2021



# Cynnwys

**Gofynion mynediad** .......... 2
**Recriwtio** .......... 3
**Yr hanes hyd yma** .......... 4
**Am beth rydym ni'n chwilio** .......... 6
**Rolau a Chyfrifoldebau** .......... 7
**Sgiliau a Rhinweddau** .......... 8
**Penodiadau** .......... 9
**Amrywiaeth** .......... 9
**Ceisiadau** .......... 9

# Gofynion mynediad

I ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl, niwroamrywiol, a phobl sy'n colli'u golwg, mae cymorth ar gael i gyflawni cais.

Cysylltwch â ni i roi gwybod inni sut gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu am gostau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, neu gymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig. Cawn ein harwain gennych chi.

I'r sawl sydd â gofynion mynediad, gallwn hefyd dderbyn ffurflenni cais drwy'r post, neu atebion mewn fformatau eraill fel fideo byr neu ddec sleidiau. Dylai'r fformat gael ei gytuno gyda'n tîm cyn cyflwyno'r cais.

Cysylltwch â sion@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion ymlaen llaw cyn cyflwyno cais.

# Recriwtio

Mae Ffilm Cymru yn edrych am 3-4 unigolyn sy'n cynnig amrywiaeth o ddealltwriaeth broffesiynol a phrofiad bywyd go iawn i ymuno â'n Bwrdd dros y 6 mis nesaf. Cewch glywed gan rai o aelodau presennol y Bwrdd fan yma.

Mae ein hymrwymiadau ynglŷn â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u plethu ar draws ein sefydliad – gallwch ddarllen ein Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fan yma – ac rydym eisiau sicrhau bod ein Bwrdd yn parhau i symud ein syniadau a'n hymarfer yn eu blaen, gan gynrychioli'r sawl yr ydym yma i'w gwasanaethu.

Dylai'r ymgeiswyr rannu angerdd at sector a diwylliant ffilm Cymru sy'n gynhwysol, teg a gwyrdd, ac sy'n darparu gwerth economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol ledled Cymru.

Gwerthfawrogwn brofiad eang ar draws ein Bwrdd ac nid ydym yn disgwyl i bob Aelod fod â chefndir ym maes ffilm, na hyd yn oed sector creadigol. Os ydych yn meddwl y gallwch ychwanegu gwerth i'n gwaith, hoffem glywed gennych chi.

Bydd y penodiadau am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd, gyda'r posibilrwydd o ddechrau ar gyfnodau gwahanol o fis Tachwedd 2021. Mae disgwyl i'r aelodau fynychu pedwar cyfarfod o'r Bwrdd bob blwyddyn a gallent hefyd eu cynnig eu hunain i ddarnau penodol o waith, megis grwpiau gorchwyl a gorffen wedi'u targedu.

Caiff taliad cydnabyddiaeth ei gynnig i aelodau'r bwrdd ar gyfradd o £35 yr awr, sy'n destun PAYE a Chyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol yn dibynnu ar y symiau sy'n cael eu talu. Mae'r aelodau'n dueddol o dreulio'r hyn sy'n gyfwerth ag 8-10 diwrnod y flwyddyn ar ddyletswyddau'n ymwneud â'r Bwrdd. Rydym hefyd yn talu treuliau.

## Yr hanes hyd yma

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i hybu sector a diwylliant ffilm sy'n gweithio i bawb ledled Cymru.

Bu'n amser eithriadol o heriol yn ystod y pandemig, lle bu angen i ni fod yn sionc ac ymatebol, gan barhau hefyd i roi cymorth sy'n galluogi'r sector i fod yn gynhwysol, teg a gwyrdd. Gallwch ddarllen mwy am ein cynlluniau fan yma, a chlywed mwy am ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf fan yma.

Rydym yn fenter gymdeithasol arloesol ac entrepreneuraidd sy'n dosbarthu cyllid a datblygu polisi ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI, yn ogystal â denu cyllid trydydd parti. Rydym wedi datblygu dull penodol Gymreig sy'n ymatebol i'n hamgylchiadau economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol. Er enghraifft, mae ein rhaglen hyfforddi flaenllaw i newydd-ddyfodiaid, Troed yn y Drws, yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai, canolfannau gwaith, cynghorau lleol a sefydliadau llawr gwlad i nodi a chynorthwyo unigolion sy'n wynebu caledi ariannol i ddefnyddio eu sgiliau trosglwyddadwy yn y sector creadigol. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu gweithlu cynhwysol, sionc a gwyrdd, lle mae swyddi lleol i bobl leol, a gweithlu sydd hefyd yn meddu ar y sgiliau i weithio ar draws y sector creadigol a thu hwnt.

Rydym yn sionc ac ymatebol, yn datblygu ein gweithrediadau ein hunain gan gynnwys gwasanaethau y telir amdanynt, tra'n cynorthwyo'r sector i dyfu a gwella ei arferion busnes.

Mae llawer i weiddi yn ei gylch hyd yma, gyda £9m o arian loteri yn galluogi i gynhyrchu 76 ffilm nodwedd gwerth dros £100m, ac yn denu buddion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol. Teithiodd y ffilmiau i bedwar ban byd, ac mae ecosystem Cymru wedi elwa o sylfaen fedrus o sgiliau sy'n creu a manteisio ar eiddo deallusol.

- Denwyd £9m o gyllid y Loteri Genedlaethol
- Gwariwyd £100m ar 76 o ffilmiau gan dalent o Gymru
- 25% o gyd-gynyrchiadau rhyngwladol
- £31.5m wedi'i wario yng Nghymru
- 247 o leoliadau i hyfforddeion cynhyrchu ers 2006
- 796 o bobl yn rhan o ddigwyddiadau hyfforddiant yn 2020-21

Rydym yn gweithredu'n rhyngwladol, ac yn gweithio gyda ffilmiau sy'n teithio'r byd; ni sydd â'r lefelau uchaf o gyd-gynyrchiadau yn y Deyrnas Unedig ac mae gennym rwydweithiau cydweithio sy'n rhannu gwybodaeth er mwyn sbarduno cynnydd.

Edrychwn y tu hwnt i gynyrchiadau unigol i ddatblygu'r ecosystem – o gefnogi 17 o gwmnïau cynhyrchu drwy gyfrwng cronfeydd twf; i gynorthwyo sinemâu, gwyliau a darparwyr cymunedol dros dro i gynyddu ac ehangu eu cynulleidfaoedd ledled Cymru drwy arferion arloesol a chynhwysol.

Wrth i'r sector dyfu yma, mae gennym fwy o ffocws ar ddatblygu ein darpariaeth addysg, sgiliau a hyfforddiant, ac rydym wedi cefnogi 2,000 o leoliadau gwaith a hyfforddiant hyd yma. Ymdrechwn i sicrhau bod ehangder llawn y gymdeithas i'w weld yn ein gweithlu; bod gan y gweithlu'r gallu i addasu; y gall ddefnyddio ei sgiliau ar draws y sector creadigol a diwylliannol; a bod ganddo'r gallu i weithio yn yr economi gìg. Yn hanfodol, mae angen i'r gwaith hwn fod yn seiliedig ar ddata cadarn ynglŷn ag anghenion sgiliau a rhaid cydweithio ag eraill i ddatblygu ffrwd effeithiol.

I gael mwy o wybodaeth, mae ein [Cynllun Strategol i'w weld fan yma.]

## Am beth rydym ni'n chwilio

Mae gennym Fwrdd brwdfrydig ac ymrwymedig, gyda phob aelod yn cynnig dealltwriaeth werthfawr o'u profiad proffesiynol a'u profiad o fywyd go iawn. Rydym eisiau parhau i ehangu'r safbwyntiau hynny a herio'r ffordd rydym yn meddwl a gweithredu. Os oes gennych ddiddordeb i rannu eich profiad a'ch safbwyntiau, carem glywed gennych. Yn benodol, gwahoddwn geisiadau oddi wrth unigolion sy'n Fyddar, anabl a/neu'n niwroamrywiol, ynghyd ag unigolion sy'n Ddu, Asiaidd neu o leiafrif ethnig.

Os ydych yn cael eich denu gan yr alwad hon, hoffem glywed gennych chi, waeth beth yw eich taith neu rôl broffesiynol. Hefyd, ymhlith y 3-4 aelod yr ydym yn eu recriwtio, hoffem lenwi bylchau a welwn mewn profiad wrth i aelodau presennol ddod at derfyn eu hamser gyda ni:

**Materion cyfreithiol/busnes:** profiadol yn yr agweddau cyfreithiol, ariannol a busnes ar greu ffilmiau a'r diwydiannau creadigol cysylltiedig;

**Cynhyrchydd/sylfaenydd:** profiadol o ran datblygu busnes yn y sector creadigol gan gynnwys datblygu perthnasoedd a deunydd creadigol; datblygu ffrydiau refeniw, efallai o ffurfiau celf neu sgrin eraill, ar gyfer model busnes hyfyw; yn effro i werth gweithwyr llawrydd a gwasanaethau/cyfleusterau ar draws y sector;

**Cynrychiolydd platfform / comisiynydd:** yn gyfarwydd â'r dirwedd newidiol o dalent, cynhyrchu a dosbarthu gan gynnwys yr holl lwybrau ffrydio/comisiynu i'r farchnad yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Gallai meysydd eraill o ddiddordeb gynnwys cyfarwyddwyr (efallai'n symud ar draws o ddisgyblaeth arall), ymchwilwyr/dadansoddwyr yn asesu effaith ymyriadau, eiriolwyr polisi ac athrawon creadigol. Nid yw'r rhestr hon o feysydd yn orffenedig. Nid oes gennym yr holl atebion ac nid ydym eisiau colli cyfle i gwrdd â rhywun gwych! Os yw ein gwerthoedd a'n cenhadaeth yn berthnasol i chi, cysylltwch â ni.

## Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd yr aelodau'n gyfrifol am lywodraethiant Ffilm Cymru, gan oruchwylio datblygiad y cwmni a datblygiad ehangach ein polisïau a'n strategaethau i gynorthwyo'r sector. Yn benodol, mae'r aelodau'n:

- Rhannu eu syniadau a'u profiad i ffurfio, cymeradwyo a phwysleisio cynlluniau strategol a pholisïau Ffilm Cymru Wales a hynny wedi'i lywio gan adolygiad gweithredol a data;
- Fel rhan o'r Bwrdd gyda'i gilydd, darparu llywodraethiant ariannol a strategol – adolygu a chymeradwyo'r blaenoriaethau strategol blynyddol, cynlluniau, cyllidebau, cyfrifon rheoli chwarterol a Chyfrifon Statudol blynyddol;
- Gwneud penderfyniadau ar y cyd ynglŷn â cheisiadau am £50,000 neu fwy mewn ymateb i argymhellion y tîm gweithredol;
- Eiriolwyr gweithredol dros Ffilm Cymru Wales, ei waith a'r talent a gynrychiolwn drwy fynychu digwyddiadau, cyflwyniadau lefel uchel a mynychu cyfarfodydd strategol lefel uchel;
- Gallent hefyd arwain ar feysydd penodol o waith, o bryd i'w gilydd, ar sail gorchwyl a gorffen.

Bob blwyddyn, caiff pedwar cyfarfod llawn o'r Bwrdd eu cynnal, a hynny am ddiwrnod yr un. Ar hyn o bryd caiff y rhain eu cynnal drwy fideogynadledda, ond gallent hefyd gael eu cynnal yn ein canolfan yng Nghaerdydd, gyda'r nod o gynnal cyfarfod mewn ardal arall yng Nghymru unwaith y flwyddyn. Yn ychwanegol at gyfarfodydd chwarterol, gall Aelodau ymgysylltu drwy bwyntiau cyswllt ffôn / Skype, a chânt eu hannog i fynychu digwyddiadau lle y bo'n bosibl.

## Sgiliau a Rhinweddau

Rydym yn edrych am ymgeiswyr sydd ag:

- Ymagwedd agored a chydweithredol at herio ymarfer ac annog cyfraniadau a phartneriaethau;
- Ymrwymiad i ddatblygu sector cynhwysol sy'n adlewyrchu ac yn gwasanaethu ein cymdeithas yn llawn;
- Diddordeb brwd mewn datblygu manteision cymdeithasol, diwylliannol, addysgol a/neu economaidd ffilm i'r dyfodol, a hynny ledled Cymru;
- Parodrwydd i ddarparu arweiniad ar lefel uchel, gan arwain at ganlyniadau heriol ond cyflawnadwy, ac yn meddu ar ddealltwriaeth o'r dirwedd wleidyddol a diwylliannol y gweithredwn ynddi;
- Awydd mawr i wneud gwahaniaeth;
- Dealltwriaeth o ffurfio targedau strategol ar sail tystiolaeth sy'n caniatáu arloesedd;
- Gwerthfawrogiad o'r atebolrwydd a'r cyfrifoldebau angenrheidiol mewn perthynas ag arian cyhoeddus.

Gwerthfawrogwn siaradwyr Cymraeg ar draws ein Bwrdd, ond nid yw'n hanfodol i ymgeiswyr fedru'r Gymraeg.

# Penodiadau

Penodir am gyfnod o 3 blynedd i gychwyn.

Mae disgwyl i'r Aelodau ymwneud yn weithgar â Ffilm Cymru Wales – boed drwy fynychu dangosiadau, gwneud cyflwyniadau ac eirioli ar ran y cwmni, neu baratoi at gyfarfodydd a'u mynychu. Rydym yn cydnabod a gwerthfawrogi'r ymrwymiad mae'r Aelodau'n ei wneud i 'roi'n ôl' i Gymru neu' i'r sector neu ar sail sbardunau eraill sy'n eu denu i'r rôl. Ceisiwn wneud hyn yn ymarferol i bob Aelod, gan gynnwys y Cadeirydd, wrth i Aelodau ar draws y Bwrdd wirfoddoli ac arwain ar feysydd penodol o arbenigedd/diddordeb.

Cynigir taliad cydnabyddiaeth i Aelodau'r Bwrdd ar gyfradd o £35 yr awr, sy'n destun PAYE a Chyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol yn dibynnu ar y symiau sy'n cael eu talu, yn ogystal â threuliau. Ar gyfartaledd, mae Aelodau'r Bwrdd yn dueddol o dreulio'r hyn sy'n gyfwerth ag 8-10 diwrnod y flwyddyn ar ddyletswyddau'n ymwneud â'r Bwrdd.

# Amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i barhau i wella amrywiaeth ein Bwrdd ac yn arbennig rydym yn annog ceisiadau sy'n ehangu cynrychiolaeth, safbwyntiau a phrofiad bywyd go iawn yn ehangach.

# Ceisiadau

Gofynnwn i chi gyflwyno cais drwy lythyr, neu drwy ffordd arall os yw hynny wedi'i gytuno mewn ymateb i gais ynglŷn â mynediad, gan ddisgrifio beth sy'n eich denu i'r rôl, beth allwch chi ei gynnig, ac yn ddelfrydol pryd fyddech chi'n cychwyn.

Bwriadwn i’r penodiadau newydd gychwyn gyda chyfnodau rhyngddynt dros y misoedd nesaf ac felly gallwn fod yn hyblyg o ran dyddiadau cychwyn.

Dylai’r ceisiadau gael eu hanfon at sylw ein Cadeirydd, yr Athro Ruth McElroy, d/o sion@ffilmcymruwales.com

Neu drwy’r post i: Ffilm Cymru Wales, Uned 6, Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CF11 6BH.

Os hoffech drafod y rôl ymlaen llaw, cyfeiriwch eich ymholiad at y Prif Weithredwr, pauline@ffilmcymruwales.com – neu ffoniwch 02921 679369 – a all hefyd eich rhoi mewn cyswllt â’n Cadeirydd, sy’n hapus i ymateb i ymholiadau.

**Cysylltwch erbyn 12 hanner dydd, dydd Llun 27ain Medi 2021.**

**Bydd y cyfweliadau – drwy fideogynadledda neu wyneb yn wyneb drwy drefniant – yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy’n cychwyn ar 4ydd Hydref.**